Sesiwn 2: Taflen Waith '2A' i Ddysgwyr

Beth yw WCA?

Mae Gweithredu Cyfunol gan Fenywod (WCA) yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gweithredu gwirfoddol, parhaus gan grŵp i gyflawni buddiannau cyffredin. Er enghraifft, undebau ffermwyr a chwmnïau cydweithredol (lle mae ffermwyr yn cronni eu hadnoddau mewn gweithgareddau penodol megis rhannu peiriannau ac offer neu farchnata'u cynnyrch); cymdeithasau cynilion a chredyd (mae'r rhain yn tueddu i fod yn grŵp o bobl sy'n cynilo a benthyg gyda'i gilydd, sef math o fancio a benthyca cyfoedion-i-gyfoedion); grwpiau ffermwyr ymestynnol (lle mae ffermwyr yn dysgu oddi wrth ffermwr mwy profiadol neu'r rhai sydd ag arbenigedd mewn meysydd penodol).

Roedd y grwpiau a astudiwyd yn ffurfiol ac yn anffurfiol, o'r un rhyw ac yn gymysg. Mae grwpiau ffurfiol yn cael eu cofrestru yn gyfreithiol ac fel arfer mae ganddynt is-ddeddfau ysgrifenedig. Nid yw grwpiau anffurfiol drwy ddiffiniad yn cael eu cofrestru yn gyfreithiol. Mae grwpiau sy'n gwerthu i farchnadoedd penodol yn aml yn ffurfiol oherwydd yr angen i gymryd rhan mewn contractau a rhwymedigaethau ariannol.

Effaith y Grwpiau WCA (Gweithredu ar y Cyd gan Fenywod)

Roedd effeithiau cadarnhaol a phwysig i'r menywod a oedd yn rhan o'r grwpiau WCA (Gweithredu ar y Cyd gan Fenywod). Roedd y menywod yn y grwpiau WCA yn ennill mwy na'r rhai nad oeddent yn y grwpiau a hynny oherwydd eu bod yn cynhyrchu mwy o gynnyrch a hwnnw'n well cynnyrch, ac oherwydd eu bod yn gallu cael mwy o incwm am y cynnyrch yr oeddent yn ei werthu. Roedd y menywod yn y grwpiau WCA yn gwneud mwy o benderfyniadau o fewn eu haelwydydd ac roedd ganddynt fwy o ddylanwad yn eu cymunedau – y rhain oedd prif gasgliadau'r astudiaeth a'r casgliadau arwyddocaol yn ystadegol.

Nid yw un math grŵp yn dod â'r budd mwyaf i'r menywod; mae menywod yn cael eu grymuso mewn meysydd gwahanol, gan fathau gwahanol o grwpiau, ac yn aml mae effeithiau'r grymuso yn fwy yn sgil effaith gyfun aelodaeth o fwy nag un grŵp.

Mae cysylltiadau rhwng grwpiau ffurfiol a rhai anffurfiol yn chwarae rhan arwyddocaol yn ymwneud y menywod â grwpiau WCA. Mae grwpiau anffurfiol yn aml yn helpu'r menywod i ddatblygu sgiliau arwain ac i gronni cynilion, tra bo gan aelodau grwpiau ffurfiol fwy o fynediad yn aml at fewnbynnau (megis cyllid neu offer) a gwasanaethau, a bydd eu hymwneud â marchnadoedd yn fwy effeithiol.

Er bod yn aml fwy o fanteision economaidd mewn grwpiau cymysg oherwydd mwy o adnoddau, rhwydweithiau a mynediad at drafnidiaeth (dynion sydd â cherbydau fel rheol), mae'r grwpiau i fenywod yn unig yn galluogi menywod i ddatblygu sgiliau ac i feithrin hyder, a chymryd rhan yn effeithiol mewn grwpiau cymysg. Gall grwpiau i fenywod yn unig neu grwpiau dan arweiniad menywod osgoi problem sy'n codi weithiau mewn grwpiau cymysg lle mae'r dynion yn tueddu bod yn ben o ran y rolau arweinyddiaeth a defnyddio'r pŵer sy'n gysylltiedig â hynny i elwa ar gyfleoedd gwerthu newydd, prisiau gwell, technoleg newydd neu ragor o gyfleoedd hyfforddi.

Cynhyrchu shea ym Mali – enghraifft o Weithredu ar y Cyd gan Fenywod.

Menywod o bentref lle mae un o'r mentrau menyn shea cydweithredol yn gweithredu.

Llun gan: Edmond Dembele/Oxfam

Ym Mali, gan fod cynhyrchu shea, ei brosesu a'i farchnata, yn weithgareddau a wneir bron yn llwyr gan fenywod, mae cyfleoedd da yn bodoli i Weithredu ar y Cyd gan Fenywod (WCA). Yn wir, yn y pedwar pentref a astudiwyd ar gyfer yr ymchwil WCA, sector i fenywod yn unig fu'r sector shea erioed. Hefyd, mae'n hen, hen draddodiad i fenywod gydweithio i gynnal llu o weithgareddau grŵp ym Mali, ac yn fwy diweddar maent wedi cael cymorth gan bolisïau'r llywodraeth sy'n cefnogi ymwneud menywod â grwpiau WCA.

Y Cefndir

Ym Mali y mae un o'r ardaloedd mwyaf o goed shea yn 'llain shea' gorllewin a chanolbarth Affrica. Mae'n bosibl fod cynifer â 408.6 miliwn o goed shea, ac yn 2012 roedd y cynhyrchiad cenedlaethol o adnoddau shea tua 80,000 o dunelli metrig y flwyddyn, o'i gymharu â chynhyrchiad blynyddol byd-eang sydd rhwng 610,000 a 650,000 o dunelli metrig.[i]

Mae cynhyrchwyr shea ym Mali wedi tueddu gwerthu cnau shea un ai'n amrwd neu wedi'u prosesu yn fenyn. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae cyfleoedd i werthu i farchnadoedd tramor, ac i greu gwerth ychwanegol, wedi arwain at gynhyrchu gwell menyn, sy'n gwerthu am bris uwch na'r cynnyrch traddodiadol. Yn draddodiadol, dim ond ymwneud â thynnu'r menyn yr oedd grwpiau WCA (Gweithredu ar y Cyd gan Fenywod), ond yn rhan o'r datblygiadau newydd hyn mewn creu cynnyrch shea a'i farchnata, mae grwpiau bellach wrthi'n prynu'r cnewyll, yn tynnu'r menyn a'i gadw, yn trin y cynnyrch terfynol a'i werthu.

Cafodd ymchwil yr WCA ei wneud yn ardal Koutiala yn Sikasso, sef rhanbarth yn ne-ddwyrain y wlad ger y ffin â Burkina Faso. Mae'r amodau amgylcheddol yn yr ardal hon yn ffafriol iawn i dwf coed shea, ac mae cynhyrchu menyn shea yn weithgaredd sydd wedi hen ymsefydlu.

Aelodau o fenter menyn shea gydweithredol ym Mali yn dangos cynwysyddion menyn shea'r grŵp, sy'n aros i gael eu gwerthu. Llun gan: Edmond Dembele/Oxfam

Manteision bod mewn grŵp WCA:

Roedd y menywod yn y grwpiau WCA a holwyd yn ennill tua $12 y flwyddyn yn fwy drwy werthu menyn traddodiadol nag yr oedd y cynhyrchwyr cyfatebol nad oeddent yn aelodau. Ynghyd â gwerthu'r menyn shea gwell, mae hyn yn golygu bod yr enillion cynhyrchion shea 81 y cant yn fwy nag enillion y menywod nad ydynt mewn grwpiau, sef $20 y flwyddyn o gynnydd yn yr elw. Ar ben hynny mae'n bosibl y bydd aelodau WCA hefyd yn gallu trosglwyddo'r technegau a'r sgiliau a ddysgant o gynhyrchu menyn shea gwell, ei brosesu a'i farchnata, i weithgareddau eraill sy'n creu incwm megis gwerthu cynhyrchion amaethyddol eraill. Gall hyn olygu bod modd i aelodau WCA godi hyd yn oed mwy o arian.

Mae canfyddiadau Mali yn dangos y gall aelodau unigol o grwpiau WCA, dan yr amodau iawn, gynyddu eu dylanwad ar yr aelwyd ac yn y gymuned, gan gyfrannu at newidiadau parhaus o ran gwneud bywyd yn decach i fenywod.

(Detholiad o: *Women's Collective Action in the Shea Sector in Mali* http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/womens-collective-action-in-the-shea-sector-in-mali-275772)

[i] Dogfen y Weinyddiaeth dros Hybu Menywod, Plant a'r Teulu (MPFEF) (2003) *'Stratégie de renforcement des capacités des femmes dans la filière de karité au Mali'.*